NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Canser y brostad: diagnosis a rheoli

9 Mai 2019

## *Canser y brostad: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Canser y brostad yw'r ail fath mwyaf cyffredin o ganser yn y DU. Mae canser y brostad yn aml yn tyfu'n araf iawn i ddechrau heb achosi symptomau hyd yn oed. Efallai na fydd angen ei drin ar unwaith, ond mae hyn yn dibynnu ar b'un a yw'r canser wedi ymledu o fewn y brostad neu i rannau eraill o'r corff ai peidio. Golyga hyn fod penderfyniadau am driniaeth, beth ddylai fod a phryd y dylai ddechrau, yn wahanol i bawb

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â chanser y brostad drwy sicrhau'r canlynol:

- mae eich meddyg yn esbonio'r gwahanol brofion a ddefnyddir i ddiagnosio canser y brostad, beth maent yn ei olygu a'r ffordd y defnyddir y canlyniadau
- mae eich tîm gofal yn sicrhau eich bod wrth wraidd penderfyniadau ynghylch profion a thriniaethau ac yn eich helpu i ddeall y manteision a'r risgiau posibl
- mae gennych amser i bwyso a mesur eich opsiynau – er enghraifft, rhwng dechrau triniaeth neu gyfnod o fonitro rheolaidd.

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?
- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r driniaeth sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am ganser y brostad ar wefan y GIG.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Movember
- Orchid – Fighting male cancer, 0808 802 0010
- Prostate Cancer UK, 0800 074 8383
- Tackle Prostate Cancer, 0800 035 5302

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn gyda phobl y mae canser y brostad wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3376-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.